EISTEDDFOD Y TYMBL 2022

Rhyfedd oedd bwrw ati i drefnu eisteddfod lawn unwaith eto ar ôl saib gorfodol o ddwy flynedd oherwydd canllawiau Cofid. Roedd yn rhaid mynd i dyrchu ymhellach i mewn i ddreiriau i chwilio am dystysgrifau, cyfeiriadau a'r medalau ac roedd eisiau bach mwy o fôn braich nag arfer i sgleinio'r cwpanau. Ar ôl yr holl baratoi, braf felly oedd gallu croesawi cystadleuwyr brwd yn ôl i Neuadd Y Tymbl am hanner awr wedi dau ddydd Sadwrn Medi 17eg. Brafiach fyth yw gallu dweud bod y cystadlu wedi bod yn frwdfrydig ac o safon uchel tu hwnt yn ystod y prynhawn a'r nos. Enillydd Cwpan Côr Y Mynydd Mawr am y cystadleuydd ifanc (hyd at 21 oed) mwyaf addawol yn yr adran gerdd oedd Alwena Mari Owen o Lanllwni. Diddanodd Alwena'r gynulleidfa drwy ganu gwerin, canu emyn, canu unawd allan o sioe gerdd a chanu'r piano, heb sôn am lefaru hefyd. Does dim pen draw i'w thalentau!
Pleser hefyd oedd gallu gwahodd y Parchedig Ddoctor Emyr Gwyn Evans i fod yn llywydd y dydd. Bu Emyr yn gadeirydd y pwyllgor am nifer o flynyddoedd ac yn gefnogwr brwd o'r eisteddfod. Yn ei araith bu'n adrodd am rai o ddigwyddiadau mwyaf cofiadwy yr eisteddfod.
Keri Graham Morgan o Garnant oedd enillydd y gadair. Er ei fod yn awr yn byw yn Nyffryn Aman, brodor o ben uchaf Gwm Gwendraeth yw Keri wedi ei fagu yng Ngorslas ac wedi derbyn ei addysg yn yr ysgol gynradd yno ac yna yn Ysgol Ramadeg y Gwendraeth. Enillodd y gadair gyda cherdd rhydd ar y thema Anrheg.
Bu hefyd cystadlu eiddgar yn yr adran gwaith cartref ar gyfer yr ysgolion lleol. Ysgrifennwyd barddoniaeth ar y themâu, 'Ffrindiau' ac 'Ein Byd' tra lluniwyd gwaith celf ar y thema 'Môr a Mynydd'. Eleni, crëwyd dwy gystadleuaeth newydd ar gyfer y disgyblion cynradd, cystadleuaeth ffotograffiaeth ar y thema 'Byd Natur' a cystadleuaeth creu addurn 3D o ddeunydd/ddeunyddiau wedi eu hail-gylchu. Diolch i'r disgyblion a staff yn yr ysgolion am fynd ati i roi o'u hamser i gystadlu.

<u>CANLYNIADAU</u>

Unawd 6-8 oed
1. Greta Ann Jones, Caerfyrddin
2. Nanw Griffiths Jones, Cwrt Newydd
3. Llew Gruffydd, Y Tymbl ac Alaw Evans, Pedair Heol, Cydweli

Llefaru 6-8 oed
1. Nanw Griffiths Jones, Cwrt Newydd
2. Alaw Evans, Pedair Heol, Cydweli
3. Llew Gruffydd, Y Tymbl a Greta Ann Jones, Caerfyrddin

Unawd 8-10 oed
1. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog
2. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais a Lili Haf Saunders, Cefneithin
3. Celyn Davies, Llandyfrïog

Llefaru 8-10 oed
1. Celyn Davies, Llandyfrïog 2. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais 3. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog

Unawd 10-12 oed
1. Awel Grug Lewis, Rhydaman 2. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 3. Marged-Alys Richards, Tymbl Uchaf

Llefaru 10-12 oed
1. Awel Grug Lewis, Rhydaman 2. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 3. Marged-Alys Richards, Tymbl Uchaf

Unawd ar unrhyw offeryn cerdd
1. Awel Grug Lewis, Rhydaman 2. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni

Cân werin dan 12 oed
1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni
2. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais a Gruffydd Davies, Llandyfrïog
3. Nanw Griffiths Jones, Cwrt Newydd ac Awel Lewis, Rhydaman

Llefaru darn o'r ysgrythur dan 12 oed 1. Awel Grug Lewis, Rhydaman

Canu emyn dan 12 oed
1. Nanw Griffiths Jones, Cwrt Newydd 2. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 3. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais

Unawd 12 i 16 oed
1. Alwena Mair Owen, Llanllwni 2. Trystan Bryn, Pumsaint 3. Ianto Evans, Abergwaun

Llefaru 12 i 16 oed
1. Alwena Mair Owen, Llanllwni 2. Seren Weston, Llannon 3. Ianto Evans, Abergwaun

Cân werin 12 i 16 oed
1. Alwena Mair Owen, Llanllwni 2. Ianto Evans, Abergwaun 3. Seren Weston, Llannon

Unawd ar unrhyw offeryn cerdd 18 oed a than hynny
1. Ianto Evans, Abergwaun ac Alwena Mair Owen, Llanllwni

Cystadleuydd ifanc (hyd at 21 oed) mwyaf addawol yn yr adran gerdd - Alwena Mair Owen, Llanllwni

Cân Werin – agored 1. Alwena Mair Owen, Llanllwni 2. Ann Watkins, Craig-y-nos

Unawd allan o Sioe Gerdd 1. Alwena Mair Owen, Llanllwni

Llefaru darn o'r ysgrythur
1. Ann Watkins, Craig-y-nos
2. Alwena Mair Owen, Llanllwni
3. Ianto Evans, Abergwaun a Sulwen Davies, Drefach

'Sgen Ti Dalent (Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru)
1. Gwion Dafydd Bowen, Boncath a Gwennan Lloyd ac Alwena Mair Owen, Llanllwni

Llefaru neu Gyflwyno Darn Digri (Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru)
1. Gwion Dafydd Bowen, Boncath

Canu Emyn: dan 60 oed 1. Alwena Mair Owen, Llanllwni

Her Llefaru
1. Ann Watkins, Craig-y-nos
2. Sylwen Davies, Drefach
3. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni
4. Alwena Mair Owen, Llanllwni

Canu Emyn: dros 60 oed 1. Sulwen Davies, Drefach

Cenwch im yr Hen Ganiadau 1. Gerwyn Rees, Porthyrhyd

Her Unawd 1. Gerwyn Rees, Porthyrhyd 2. Alwena Mair Owen, Llanllwni

Cystadlaethau Llenyddiaeth

Y Gadair Keri Graham Morgan, Garnant

Telyneg
1. Megan Richards, Aberaeron 2. Megan Richards, Aberaeron 3. John Meurig Edwards, Aberhonddu

Englyn Ysgafn
1. Mel Morgans, Brynaman 2. John Meurig Edwards, Aberhonddu 3. Alan Iwi, Didcot

Brawddeg
1. Carys Briddon, Tre'r-ddôl 2. John Meurig Edwards, Aberhonddu 3. Mary B. Morgan, Llanrhystud

Limrig
1. Megan Richards, Aberaeron 2. Mel Morgans, Brynaman 3. John Meurig Edwards, Aberhonddu

Emyn sydd yn addas i blant ysgol gynradd
1. J. Richard Williams, Llangefni 2. J. Richard Williams, Llangefni 3. Mary B. Morgan, Llanrhystud

Cystadlaethau i Blant Yr Ysgolion Lleol
Arlunio Meithrin a Derbyn
1. Elis, Ysgol Llechyfedach 2. Dion, Ysgol Llechyfedach 3. Elisha, Ysgol Gorslas

Arlunio Blynyddoedd 1 a 2
1. Cara, Ysgol Llechyfedach 2. Ben, Ysgol Penygroes 3. Liam, Ysgol Y Tymbl

Arlunio Blynyddoedd 3 a 4
1. Jack, Ysgol Y Tymbl 2. Alice, Ysgol Y Tymbl 3. Alys, Ysgol Cefneithin

Arlunio Blynyddoedd 5 a 6
1. Nerys, Ysgol Llannon 2. Evan, Ysgol Llannon 3. Mared, Ysgol Llechyfedach ac Osian, Ysgol Gorslas

Ffotograffiaeth
1. Millie, Ysgol Llannon 2. Megan, Ysgol Llechyfedach 3. Kenzie, Ysgol Llannon

Creu Addurn 3D Blynyddoedd 3 a 4
1. Mel, Ysgol Llannon 2. Clara, Ysgol Llannon 3. Ffion, Ysgol Llannon

Creu Addurn 3D Blynyddoedd 5 a 6
1. Cadi, Ysgol Llannon 2. Tal, Ysgol Llannon 3. Rhodri, Ysgol Llannon

Llawysgrifen Blynyddoedd 1 a 2
1. Megan, Ysgol Gorslas 2. Betsi, Ysgol Cefneithin 3. Nela, Ysgol Y Tymbl

Llawysgrifen Blynyddoedd 3 a 4
1. Braxon, Ysgol Gorslas 2. Mel, Ysgol Llannon 3. Mari, Ysgol Y Tymbl

Llawysgrifen Blynyddoedd 5 a 6
1. Amelia, Ysgol Penygroes 2. Alys, Ysgol Llannon 3. Emelia, Ysgol Gorslas